# MORON

## 1 HAU DY HADAU


Gan ddechrau ym mis Mawrth, gelli di hau hadau moron yn syth i wely llysiau mewn rhigolau 1cm o ddyfnder. Gadawa 30cm rhwng pob rhes. Dyfria'r rhigol cyn hau'r hadau. Taena'r hadau'n denau yn y rhigol a defnyddia dy law i wasgu'r pridd yn ysgafn dros yr hadau.

## 2 TENEUO

Pan fydd y planhigion bach yn 3cm o daldra, dechreua dynnu'r rhai llai a gwannach. Gadawa 10cm rhwng pob moronen. Gofala beidio tarfu ar y moron rwyt ti am eu cadw.

## 3 CYNAEAFU

Bydd moron yn cymryd 12-16 wythnos i dyfu. Gelli di weld pan fyddan nhw'n barod drwy symud rhywfaint o'r pridd o amgylch top y gwreiddyn. Os yw'r maint i weld yn dda, yna mae'n barod i'w godi. Yn ofalus, llacia'r pridd o gwmpas pob moronen gyda rhaw fach cyn ei chodi.




## COFIA

Bydd pryfyn gwraidd moron yn cael ei ddenu at arogl y moron. I'w gwarchod rhag ymosodiad, defnyddia wlân garddio fel rhwystr pryfed.

Dydy moron ddim yn hoffi cael eu tarfu ar ôl eu hau. Felly rydyn ni bob amser yn hau'n syth i'r gwely llysiau.



**Newydd egino**



**Planhigion ifanc**



**Barod i'w godi**

CARDIFF CAERDYDD

All Saints Educational Trust

TREES FOR CITIES